# Tafarn y Plu, Llanystumdwy

## Mynegi Diddordeb - Cyfle Partneriaeth

**Cyfle prin i weithredu tafarn gymunedol wedi'i hadnewyddu yng Ngwynedd**

- Buddsoddiad cyfalaf sylweddol o £1.5m i greu adeilad wedi'i adnewyddu'n llawn
- Disgwylir ailagor: **Gaeaf 2026** (targed cwblhau Tachwedd 2026)
- Cefnogaeth leol gref a buddsoddiad gan gyfranddalwyr
- Modelau partneriaeth hyblyg i gefnogi llwyddiant gweithredwr
- Tafarn gymunedol gyda sicrwydd a phwrpas hirdymor

### Crynodeb Gweithredol

Mae Tafarn y Plu yn dafarn gymunedol yn Llanystumdwy sydd ar hyn o bryd yn cael ei hadnewyddu'n sylweddol i sicrhau ei dyfodol hirdymor.

Rydym yn gwahodd Mynegiadau o Ddiddordeb cynnar gan weithredwyr profiadol sy'n rhannu ein gwerthoedd i redeg y dafarn gyfan, y gegin a'r fflat uwchben (gyda'r posibilrwydd o siop hunanwasanaeth a llety gwyliau Capel Bach ar gyfer yr ymgeisydd cywir).

Disgwylir i'r gwaith adnewyddu a datblygu gwblhau erbyn Tachwedd 2026, yn amodol ar gynnydd y rhaglen. Rydym felly'n chwilio am weithredwyr i ymgysylltu'n gynnar er mwyn cynllunio ymlaen llaw a'n helpu i siapio ailagor llwyddiannus.

Nid proses dendro ffurfiol yw hon. Mae'n gyfle i ddechrau trafodaethau ac adnabod partner gweithredu ar gyfer y tymor hir.

### Gweledigaeth a Safle'r Farchnad

Ein huchelgais yw sefydlu Tafarn y Plu fel:

**Tafarn wledig groesawgar wedi'i gwreiddio yn y Gymraeg, diwylliant a bywyd cymunedol, gan ddarparu cynnig bwyd a diod cryf a chynaliadwy yn fasnachol.**

**Dyma'r hyn rydym yn anelu ato:**

- Tafarn wledig draddodiadol ac ymlaciol
- Lle croesawgar sy'n addas i deuluoedd
- Canolbwynt lleol drwy gydol y flwyddyn, nid dim ond yn dymhorol
- Lle ar gyfer bwyd da, cymdeithasu a bywyd cymunedol

Rydym yn disgwyl **cynnig bwyd da a chyson** sy'n ategu rôl y dafarn fel man cyfarfod lleol a chyrchfan yn yr ardal ehangach.

Rydym yn gweld cyfleoedd ar gyfer:

- Cynnig bwyd cryf gan ddefnyddio cynnyrch lleol

- Rhaglennu diwylliannol rheolaidd (cerddoriaeth, digwyddiadau bach, gweithgareddau treftadaeth)
- Cydweithio gyda chynhyrchwyr a chreadigwyr lleol
- Digwyddiadau achlysurol neu nosweithiau thema

Rydym yn chwilio am weithredwr sy'n gallu cyfuno disgyblaeth fasnachol ag ymwybyddiaeth gymunedol.

## Ynglŷn â Thafarn y Plu

Mae Tafarn y Plu yn eiddo i'r gymuned drwy strwythur cyfranddalwyr ac mae'n bodoli er budd hirdymor lleol.

Mae buddsoddiad sylweddol yn cael ei wneud i ddarparu:

- Gofod tafarn a bwyty o safon uchel ar y llawr gwaelod (tua 50-60 o leoedd eistedd y tu mewn, gyda mwy y tu allan)
- Cegin fasnachol wedi'i hadnewyddu'n llawn
- Fflat preswyl uwchben
- Gwasanaethau a seilwaith wedi'u huwchraddio
- Ardal eistedd/gardd allanol
- Adeilad addas ar gyfer defnydd lletygarwch hirdymor

Gellir rhannu cynlluniau manwl gyda darpar ymgeiswyr. Mae darpariaeth parcio gerllaw yn y pentref.

## Ffitiadau, Dodrefn ac Offer

Mae Menter y Plu yn bwriadu darparu (yn amodol ar y fanyleb derfynol):

- Seilwaith cegin fasnachol wedi'i ffitio'n llawn
- Cownter bar a system ddosbarthu diodydd
- Dodrefn sefydlog craidd
- Gwasanaethau adeilad a chydymffurfiaeth

Byddai gweithredwyr fel arfer yn darparu:

- Dodrefn rhydd
- System EPOS (oni bai y cytunir fel arall)
- Stoc ac offer bach
- Staffio

Bydd cyfrifoldebau cynnal a chadw yn cael eu diffinio'n glir yn ystod trafodaethau'r brydles neu'r bartneriaeth.

## Rhaglen

- Disgwylir i'r gwaith adnewyddu gwblhau tua Tachwedd 2026
- Trafodaethau gyda gweithredwr i ddechrau cyn cwblhau'r gwaith
- Mae'r amserlen yn ddangosol ac yn amodol ar gynnydd

Anogir trafodaethau cynnar er mwyn sicrhau trosglwyddiad llyfn a chyfnod ailagor llwyddiannus.

## Y Farchnad a Chyfleon

Mae'r dafarn yn elwa o:

- Dalfa breswyl gref drwy'r flwyddyn, gan gynnwys y tîm pêl-droed lleol a thimau sy'n ymweld
- Llif ymwelwyr mewn coridor twristiaeth cydnabyddedig
- Galw profedig am dafarn o safon sy'n canolbwyntio ar fwyd
- Sylfaen cyfranddalwyr weithgar sy'n ymrwymedig i lwyddiant hirdymor

Mae ymgysylltu cymunedol wedi dangos:

- Mwyafrif sylweddol yn bwriadu defnyddio'r dafarn yn rheolaidd
- Galw cryf am gynnig bwyd o safon
- Cefnogaeth glir i ddigwyddiadau diwylliannol a'r Gymraeg
- Parodrwydd i gefnogi lleoliad o safon

## Trwyddedu

- Bydd trwydded safle mewn lle cyn ailagor
- Trefniadau terfynol i'w cytuno gyda'r gweithredwr a ffefrir
- Bydd angen Trwydded Bersonol os yw'r gweithredwr yn DPS

Bydd hyn yn cael ei egluro yn llawn yn y cam nesaf.

## Model Gweithredu Tebygol

Rydym yn rhagweld patrwm gweithredu megis:

- Ar agor o leiaf 5 diwrnod yr wythnos
- Gwasanaeth bar yn ystod y dydd a gyda'r nos
- Gwasanaeth bwyd Dydd Mercher i Ddydd Sul (neu amrywiad gan y gweithredwr)
- Hyblygrwydd tymhorol

Bydd yr oriau terfynol yn cael eu cytuno ar y cyd.

## Y Gymraeg - Gofyniad Craidd

Mae Tafarn y Plu mewn ardal lle mae'r Gymraeg yn gryf, ac mae'r iaith yn ganolog i hunaniaeth a llwyddiant y dafarn.

**Mae hyn yn ofyniad craidd ac nid yw'n ddewisol.**

Bydd hyn yn cynnwys:

- Bwydlenni dwyieithog
- Croeso a gwasanaeth Cymraeg fel safon
- Cyfryngau cymdeithasol dwyieithog

- Brandio digwyddiadau yn Gymraeg
- Arwyddion dwyieithog

Bydd cymorth a chanllaw ar gael i weithredwyr lle bo angen.

## Sut y Gellir Gweithredu'r Busnes

Byddai'r cyfle yn cynnwys:

- Y dafarn
- Y gegin fasnachol
- Y fflat uwchben
- Siop hunanwasanaeth* a llety gwyliau Capel Bach* (*opsiynol ac i'w drafod gyda'r ymgeisydd llwyddiannus)

Byddwch yn gyfrifol am:

- Weithredu dydd i ddydd
- Staffio, stoc a chydymffurfiaeth
- Costau gweithredu a chyfleustodau
- Darparu cynnig bwyd a diod o safon
- Weithio gyda'r pwyllgor ar raglen digwyddiadau
- Hyrwyddo'r Gymraeg yn weithredol

## Paramedrau Masnachol (Tebygol)

- Rhent cystadleuol ar gyfer tafarn wledig gymunedol
- Strwythurau hyblyg ar gyfer prydles neu bartneriaeth
- Posibilrwydd trefniadau sy'n gysylltiedig â throsiant
- Cyfrifoldeb y gweithredwr am staffio a chostau
- Brandio'n hyblyg o fewn fframwaith Tafarn y Plu

## Beth sy'n Gwneud Partner Cryf

Rydym yn chwilio am:

- Brofiad lletygarwch perthnasol
- Model busnes hyfyw
- Ansawdd a chysondeb
- Safonau gwasanaeth uchel
- Ymrwymiad i'r Gymraeg
- Gallu gweithio mewn partneriaeth gymunedol
- Uchelgais hirdymor

## Beth Sy'n Hanfodol

- Cadw'r dafarn yn ofod cymunedol croesawgar
- Hyrwyddo'r Gymraeg yn weithredol
- Cydymffurfio â gofynion statudol
- Perthynas waith gydweithredol

## Beth Sy'n Hyblyg

- Math a steil y cynnig bwyd
- Brandio
- Strwythur y bartneriaeth
- Trefniadau ariannol

## Cymorth i'r Gweithredwr

Byddwch yn elwa o:

- Gymuned gefnogol ac ymroddedig
- Farchnata drwy rwydweithiau lleol
- Gydweithio ar ddigwyddiadau
- Cefnogaeth Swyddog Cymunedol
- Pwyllgor sy'n ymrwymedig i'ch llwyddiant

**Partneriaeth fyddai hon - nid prydles draddodiadol yn unig.**

## Mynegi Diddordeb (1-2 dudalen)

## Anfon at: menteryplu@gmail.com

## Dyddiad cau: 30 Mehefin 2026

Yn eich cais Mynegi Diddordeb, bydd angen cynnwys:

- Gwybodaeth amdanoch chi / eich sefydliad
- Profiad perthnasol
- Amlinelliad o'ch cynnig
- Argaeledd ac amserlen

Nid oes angen cynllun busnes llawn ar hyn o bryd.

## Camau Nesaf

- Adolygiad gan y pwyllgor
- Trafodaethau anffurfiol gyda'r rhai ar y rhestr fer

# Hysbysiad Pwysig

Nid yw'r ddogfen hon yn dendr nac yn gynnig cyfreithiol rwymol.

Bydd unrhyw gytundeb yn destun trafodaethau a chontract ffurfiol.